



Polisi a Strategaeth Caffael

2022/23 i 2026/27

Crynodeb Gweithredol

Mae Polisi Caffael Cyngor Bro Morgannwg ("y Cyngor") yn hyrwyddo caffael effeithiol a chynaliadwy ledled y Cyngor. Mae caffael da yn hanfodol er mwyn sicrhau gwelliannau go iawn yng nghost ac ansawdd gwasanaethau. Mae'n rhoi'r gallu i ni reoli adnoddau yn y ffordd fwyaf effeithiol a'u defnyddio lle mae eu hangen.

Amcanion/Rheoliad Polisi

Datganiad Polisi Cymru

Diweddarodd Rebecca Evans AoS (ar y pryd) y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd Ddatganiad Polisi Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2021. "Mae'r Datganiad Polisi Caffael Cymru (DPCC) yn gosod y weledigaeth strategol ar gyfer caffael yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Bydd yn helpu i ddiffinio ein cynnydd yn erbyn y nodau llesiant yr ydym yn anelu atynt ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, gan roi Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wrth galon yr holl benderfyniadau caffael a'n cefnogi i gyflawni'r 'Gymru yr ydym yn dymuno ei gweld'"

Dyma'r weledigaeth:

Mae caffael sector cyhoeddus Cymru yn sbardun pwerus gyda'r gallu i greu newid parhaus i gyflawni canlyniadau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ar gyfer llesiant Cymru.

Polisi Caffael Bro Morgannwg

Y nod cyffredinol yw bod yr holl benderfyniadau caffael yn cael eu hystyried drwy lens Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – drwy gymhwyso'r Pum Ffordd o Weithio, gan ystyried ein hamcanion llesiant a sut y gallwn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl i'r saith nod llesiant.

[Cenedlaethau'r Dyfodol \(futuregenerations2020.wales\)](https://futuregenerations2020.wales)

Yna mae saith prif amcan:

1. Sicrhau cydymffurfiaeth gyfreithiol a llywodraethu cadarn a thryloyw
2. Cyfrannu at nod y Cyngor i fod yn Gyngor Carbon Niwtral erbyn 2030
3. Gwella arferion Gwaith Teg a fabwysiadwyd gan gyflenwyr
4. Gwneud gwariant caffael yn fwy hygyrch i fusnesau bach lleol a'r trydydd sector.
5. Cynyddu buddion cymunedol a gwerth cymdeithasol a ddarperir gan gyflenwyr
6. Hybu atebion arloesi ac arfer gorau
7. Sicrhau gwerth am arian a rheoli'r galw

Strategaeth

Mae'r polisi hwn yn cynnwys fframwaith ar gyfer safonau gofynnol, disgwylidig a dewisol ar gyfer meysydd penodol o gaffael cynaliadwy a moesegol. Mae'r fframwaith hwn yn nodi'r hyn y dylai cyflenwr ei wneud yn sylfaenol wrth geisio gweithio gyda Chyngor Bro Morgannwg. Mae'r fframwaith hefyd yn cynnwys safonau uwch, sy'n ychwanegol at y gofynion sylfaenol hyn ac yn mynd y tu hwnt iddynt, a'r safonau a ffefrir a ystyrir (yn gronnu â safonau gofynnol ac uwch) yn arfer gorau. Mae'r Cyngor yn annog ei gyflenwyr a'r rhai sy'n gwneud cais am gontractau i ystyried gweithio tuag at safonau uwch a'r rhai a ffefrir i ychwanegu gwerth a phwysau at eu tendrau.

Gwerth Cymdeithasol

Mae Gwerth Cymdeithasol yn golygu darparu buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach ar ben cyflawni gofynion contract craidd. Mae sicrhau gwerth cymdeithasol ychwanegol drwy gaffael yn arwain at fwy o werth am arian, gan wella canlyniadau i drigolion wrth gyflawni arbedion hirdymor.

Mae'r Cyngor yn annog pob sefydliad sy'n ceisio gweithio gydag ef i gynorthwyo yn y gwaith o gyflawni blaenoriaethau Cynllun y Cyngor, mewn ffordd sy'n gymesur ac yn berthnasol i faint y contract a'r math o gontract sy'n cael ei gyflawni.

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu fframwaith ThCM (Themâu, Canlyniadau, Mesurau) Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu gwerth cymdeithasol ond bydd yn teilwra'r rhain i anghenion mwy penodol Bro Morgannwg dros amser. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn Atodiad A.

Caffael Moesegol

Mae caffael moesegol yn elfen eang o'r Strategaeth sy'n cynnwys: Llafur a Chyflogaeth, Cyflog Byw Gwirioneddol, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, Taliadau Prydlon drwy'r Gadwyn Gyflenwi, Caethwasiaeth Fodern, Atal Llygredd a Bwyd Cynaliadwy. Maent wedi'u nodi'n unigol i amlygu eu pwysigrwydd.

- i. Llafur a Chyflogaeth - rhyddid cyflogaeth, amodau gwaith diogel a chyflogaeth reolaidd o leiaf gyda disgwyliad y bydd contractau dim oriau yn cael eu hosgoi.

- ii. Cyflog Byw Gwirioneddol - mae'r Cyngor yn talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i'r gweithlu, ac mae wedi ymrwymo i dalu hyn drwy contract yn y sector gofal cymdeithasol. Ei nod yw cyflawni hyn drwy gynifer o'i gyflenwyr â phosibl.
- iii. Cydraddoldeb ac Amrywiaeth – mae cyflenwyr yn cydymffurfio â rhwymedigaethau Deddf Cydraddoldeb 2010 ac mae ganddynt bolisïau sy'n cael eu monitro ac yn ddelfrydol yn darparu hyfforddiant ac yn hyrwyddo drwy eu cadwyni cyflenwi eu hunain hefyd.
- iv. Taliadau Prydlon drwy'r Gadwyn Gyflenwi - 30 yn ofynnol ac yn ddelfrydol o fewn 10 diwrnod ar gyfer BBaChau.
- v. Caethwasiaeth Fodern – ymrwymiad i sicrhau nad oes dim caethwasiaeth fodern o fewn cadwyni cyflenwi.
- vi. Atal Llygredd – mae cyflenwyr yn cadw at bolisïau'r Cyngor sy'n trafod Chwythu'r Chwiban, Atal Gwyngalchu Arian, Gwrth Lwgrwobrwyo a Llygredd ac Osgoi Trethi.
- vii. Bwyd Cynaliadwy – cyrhaeddir safonau bwyd a daw bwyd o'r tu allan i'r DU a'r UE o ffynonellau cynaliadwy.

Economi a Chyflogaeth

Fel prif gaffaelwr yn y sir, mae Cyngor Bro Morgannwg yn cydnabod yr angen i ddefnyddio ei bŵer prynu i gefnogi trigolion i sicrhau cyflogaeth dda ac i helpu busnesau lleol a sefydliadau gwirfoddol a chymunedol i ffynnu.

Pan fydd deddfwriaeth a rheoliadau yn caniatáu, bydd Cyngor Bro Morgannwg yn manteisio i'r eithaf ar bob cyfle i flaenoriaethu sefydliadau lleol ac MMBCh a MGCCCh o fewn gweithgarwch caffael.

Fel comisiynydd, bydd Cyngor Bro Morgannwg yn gweithio gydag MMBCh a MGCCCh er mwyn:

- Torri contractau mwy yn 'lotiau', lle bo'n ymarferol, hyrwyddo cyfleoedd i MMBCh a MGCCCh wneud cais am waith.
- Neilltuo caffael o dan y trothwy ar gyfer MMBCh/MGCCCh lle bo hynny'n bosibl.
- Cynnal ymgysylltiad cyn y farchnad gan gynnwys digwyddiadau cynhesu'r farchnad.
- Defnyddio gwerth cymdeithasol i flaenoriaethu sgiliau a chyflogaeth leol a chefnogaeth i'r economi leol.

Fel awdurdod lleol byddwn yn:

- Cefnogi mudiadau lleol y sector gwirfoddol a chymunedol i wneud ceisiadau am grantiau a chyllid.
- Sicrhau bod sefydliadau lleol y sector gwirfoddol a chymunedol yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf berthnasol am gyllid.

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (<https://www.cardiffcapitalregion.wales/cy/ynghlyn-a-phrifddinas-ranbarth-caerdydd/>), a darparwyr y sector hyfforddiant a sgiliau ar lefelau

lleol a rhanbarthol i adeiladu economi gref lle mae gan ein busnes a'n pobl yr offer i groesawu'r dyfodol.

Bydd y Cyngor yn disgwyl i gyflenwyr fod yn ymgysylltu â darparwyr sgiliau lleol, gan ddefnyddio cyfleoedd prentisiaeth ac ymrwymiad i gyfran o'u gweithlu ddod o Fro Morgannwg.

Gweithredu ar y Newid yn yr Hinsawdd

Ym mis Gorffennaf 2019 ymunodd Cyngor Bro Morgannwg â Llywodraeth Cymru a chynghorau eraill ledled y DU i ddatgan 'argyfwng hinsawdd' byd-eang mewn ymateb i ganfyddiadau 'Adroddiad Arbennig ar Gynhesu Byd-eang o 1.5°C' y Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd (Hydref 2018). Ymrwymodd y Cyngor i:

Leihau allyriadau carbon y Cyngor i sero net cyn targed Llywodraeth Cymru o 2030 a chefnogi'r gwaith o weithredu Cynllun Cyflawni Carbon Isel newydd Llywodraeth Cymru.

Cyflwyno sylwadau yn ôl yr angen i Lywodraeth Cymru a'r DU, fel y bo'n briodol, i ddarparu'r pwerau, adnoddau a chymorth technegol mae eu hangen ar awdurdodau lleol yng Nghymru i'w helpu i gyflawni targed 2030 yn llwyddiannus.

Parhau i weithio gyda phartneriaid ar draws y rhanbarth.

Gweithio gyda rhanddeiliaid lleol gan gynnwys Cynghorwyr, trigolion, pobl ifanc, busnesau a phartïon eraill perthnasol i ddatblygu strategaeth yn unol â'r targed o allyriadau sero net erbyn 2030 ac edrych ar ffyrdd o sicrhau'r buddion lleol gorau posibl o ganlyniad i'r camau hyn mewn sectorau eraill megis cyflogaeth, iechyd, amaethyddiaeth, trafnidiaeth a'r economi.

Mae'r Strategaeth yn mynd i'r afael â chwe elfen o'r agenda garbon - Allyriadau Carbon, Ynni, Teithio, Economi Gylchol, Nwyddau a Brynwyd a Dŵr.

- i. Allyriadau Carbon - dylai cyflenwyr fod yn monitro ac yn olrhain allyriadau ac yn gosod targed i leihau allyriadau.
- ii. Ynni – yn sylfaenol, dylai fod gan gyflenwyr ymrwymadau i leihau'r defnydd a bod yn newid i opsiynau carbon isel. Yn ddelfrydol bydd 100% ynni adnewyddadwy gyda dyddiad targed disgwylidig o 2025.
- iii. Teithio - gofyniad sylfaenol i fod ag ymrwymiad i allyriadau isel neu sero mewn dulliau mewn trafnidiaeth ac yn ddelfrydol eu bod yn cael eu defnyddio eisoes.
- iv. Economi Gylchol - yn sylfaenol dylai cyflenwyr fod yn cydymffurfio eisoes â deddfwriaeth ailgylchu berthnasol ond mae disgwyl y bydd cynlluniau cymryd yn ôl yn cael eu defnyddio a bod cynnyrch anodd ei ailgylchu yn cael ei ddargyfeirio o safleoedd tirlenwi.
- v. Nwyddau a Brynwyd – cynnyrch yn bodloni Safonau Prynu y Llywodraeth. Cynnyrch glanhau nad ydynt wedi'u profi ar anifeiliaid a chyflenwyr sy'n bodloni safonau Gwastraff Offer Trydanol ac Electronig fel gofyniad sylfaenol.

- vi. Dŵr – lleihau'r defnydd o ddŵr gymaint â phosibl a hyrwyddo defnydd o systemau effeithlon.

Adolygu

Bydd y Polisi a'r Strategaeth yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd.

Crynodeb o ThCM Cymru

1. Cymru Lewyrchus Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol a charbon isel sy'n cydnabod cyfyngiadau'r amgylchedd byd-eang ac sydd felly'n defnyddio adnoddau'n effeithiol ac yn gymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac sy'n cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan alluogi mwy o bobl i fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy greu cyflogaeth o safon.	a. Mwy o bobl mewn gwaith
	b. Gwaith Teg
	c. Gwell sgiliau i bobl
	d. Gwell sgiliau ar gyfer trosglwyddo i garbon isel
	e. Mwy o gyfleoedd i fusnesau lleol a MMBCh (Mentrau Micro, Bach a Chanolig)
	f. Hyrwyddo effeithlonrwydd adnoddau a'r economi gylchol
	g. Arloesi i gefnogi Cymru fwy llewyrchus
	h. Cadw swyddi a sgiliau yn ystod argyfwng COVID-19
2. Cymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang Cenedl sy'n ystyried, wrth wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, p'un ai a fydd gwneud y fath beth yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant byd-eang.	a. Lleihau Allyriadau Carbon
	b. Hyrwyddo caffael moesegol yn fyd-eang
	c. Arloesi i gefnogi Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang
3. Cymru Gydnherth Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach sy'n cynnal gwydnwch cymdeithasol, economaidd ac ecolegol a'r gallu i addasu i newid.	a. Gwarchod a gwella manau gwyrdd a bioamrywiaeth
	b. Diogelu'r amgylchedd
	c. Hyrwyddo caffael cynaliadwy
	d. Arloesi i gefnogi Cymru fwy cydnherth
4. Cymru Iachach Cymdeithas sy'n gwneud y gorau o les corfforol a meddyliol pobl ac sy'n deall pa ddewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i'w hiechyd yn y dyfodol.	a. Creu cymuned iachach
	b. Lleihau llygredd aer
	c. Gwella lles staff
	d. Arloesi i gefnogi Cymru iachach
	e. Cefnogi gweithwyr, BBaChau a sefydliadau trydydd sector a chymdeithas sifil i wynebu argyfwng COVID-19
5. Cymru Fwy Cyfartal Cymdeithas sy'n galluogi pobl i wireddu eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu amgylchiadau (gan gynnwys eu hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol).	a. Mwy o gyfleoedd i bobl ddifreintiedig
	b. Gwell cyflogadwyedd i bobl ifanc (dan 24 oed)
	c. Mwy o gefnogaeth i weithgareddau targed y cwricwlwm
	d. Lleihau anghydraddoldebau
	e. Hyrwyddo caffael moesegol yng Nghymru

	f. Arloesi ar gyfer Cymru fwy cyfartal
6. Cymru o Gymunedau Cydlynol Cymunedau atyniadol, hyfyw, diogel a chydgysylltiedig	a. Mwy o gyfleoedd i'r Trydydd Sector a Sefydliadau Cymdeithas Sifil (Mentrau Gwirfoddol, Cymunedol a Chymdeithasol)
	b. Gweithlu a diwylliant sy'n adlewyrchu amrywiaeth y gymuned leol
	c. Gwerth cymdeithasol wedi'i ymgorffori yn y gadwyn gyflenwi
	d. Lleihau troseddu
	e. Helpu pobl sy'n agored i niwed i fyw yn annibynnol
	f. Cymorth i bobl ifanc ddifreintiedig a'u teuluoedd.
	g. Mwy o weithio gyda'r Gymuned
	h. Arloesi i gefnogi cymunedau mwy cydlynol yng Nghymru
	i. Cefnogi gweithwyr, BBaChau a sefydliadau trydydd sector a chymdeithas sifil i wynebu argyfwng COVID-19
	j. Cefnogi cymunedau i ymdrin ag argyfwng COVID-19
	7. Cymru â Diwylliant Bywiog a Rennir lle mae'r iaith Gymraeg yn Ffynnu
b. Gwarchod safleoedd bywyd gwyllt, natur a threftadaeth brodorol	
c. Arloesi i gefnogi diwylliant mwy bywiog	